Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| **ADRAN:** | Ysgol Gynradd |
| **SWYDD:** | Cynorthwy-ydd Goruchwylio |
| **GRADD Y SWYDD:** | Gradd 1 |
| **YN GYFRIFOL I:** | Y Pennaeth |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Cyfrifoldeb am oruchwylio disgyblion yn y neuadd fwyta, yr iard chwarae a safle'r ysgol.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cynorthwyo i oruchwylio'r plant ym mhob rhan o'r ysgol a'r tir, er mwyn dilyn rheoliadau Iechyd a Diogelwch a gorfodi disgyblaeth yr ysgol. Cynorthwyo â'r cyfrifoldeb ar gyfer diogelwch ac ymddygiad da disgyblion yn ystod yr egwyl cinio.

- Ymdrin â mân broblemau, damweiniau a salwch lle bo angen, a hysbysu'r Pennaeth neu athro lle y bo'n briodol am unrhyw ddigwyddiadau difrifol.

- Goruchwylio'r plant a mynd ati'n rhagweithiol i'w hannog i gymryd rhan mewn gemau ar yr iard chwarae, yn ogystal â hybu ymddygiad cadarnhaol ymysg disgyblion yn unol â safonau ymddygiad yr ysgol.

- Hebrwng disgyblion i'r man bwyta.

- Goruchwylio plant wrth iddynt fwyta eu prydau bwyd a'u pecynnau cinio.

- Goruchwylio ciwiau a threfniadau eistedd, a helpu i ddosbarthu prydau bwyd yn y man bwyta, gan sicrhau bod unrhyw fwyd/diod a gollir yn cael ei lanhau a bod sbwriel yn cael ei glirio oddi ar y byrddau yn ôl yr angen.

- Darparu rhywfaint o hyfforddiant cymdeithasol i'r plant o ran moesgarwch wrth y bwrdd bwyd.

- Cymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiadau hyfforddi a datblygu er mwyn cynnal eich hyfforddiant proffesiynol eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn y swydd.

- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn gymesur â gradd y swydd, a chymryd rhan yn y broses o adolygu cynnwys y disgrifiad swydd yn rheolaidd.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

Deall cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch sy'n rhan o'r swyddogaeth a'r cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch personol o fewn Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei chynnal yn unol â deddfwriaeth Cyfle Cyfartal ac Arfer Gorau.

**DYDDIAD ADOLYGU/HAWL I AMRYWIO**

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn yn gywir ar hyn o bryd a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd yn ofynnol i chi gyflawni dyletswyddau eraill y gellir yn rhesymol eu neilltuo i chi, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD**

Mae archwiliad cofnodion troseddol trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ofynnol ar gyfer y swydd hon.

# Manyleb Person

## Cynorthwy-ydd Goruchwylio

Mae'r priodoleddau canlynol yn adlewyrchu'r ystod o sgiliau, galluoedd a phrofiadau ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau a nodwyd yn hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull o Werthuso/Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Nid yw cymwysterau'n angenrheidiol, ond byddai cymwysterau cymorth cyntaf o fantais.<br>• Parodrwydd i gymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu a hyfforddi. | | Cyfweliad, ffurflen gais a thystlythyrau |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad blaenorol o weithio gyda phlant ifanc neu ofalu amdanynt.<br>• Profiad blaenorol o reoli ymddygiad plant ac annog plant i chwarae â'i gilydd.<br>• Gwybodaeth sylfaenol am gymorth cyntaf. | | Cyfweliad, ffurflen gais a thystlythyrau |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm ac yn unigol.<br>• Gallu dilyn cyfarwyddiadau.<br>• Sgiliau cyfathrebu da.<br>• Peidio â chynhyrfu mewn argyfwng.<br>• Gallu cyfathrebu'n dda gyda phlant ac aelodau o'r staff.<br>• Dechrau gemau a gweithgareddau priodol i oedran y plant.<br>• Mae'r gallu i sgwrsio â chwsmeriaid ac ymateb i | | Cyfweliad, ffurflen gais a thystlythyrau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ohebiaeth yn hyderus ac yn hawdd drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o ofynion y swydd hon. | | |